**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL HAWLIAU RHENTWYR**

1) Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru[1] os bydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2) Cyflwynwyd y Bil Hawliau Rhentwyr ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Medi 2024. Mae'r Bil ar gael yn: Bil Hawliau Rhentwyr (parliament.uk)

## Amcanion Polisi

3) Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw cyflawni ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth i drawsnewid profiadau rhentwyr preifat, gan gynnwys drwy ddiddymu achosion troi allan adran 21 a chyflwyno Safon Cartrefi Gweddus gadarn yn y sector am y tro cyntaf. Amcan y Bil yw sicrhau bod rhentwyr preifat nid yn unig yn gallu cael gafael ar gartref diogel a gweddus ond eu bod hefyd yn gallu arfer eu hawliau i herio triniaeth wael ac arferion gwael. Dylai landlordiaid barhau i fod â'r hyder i adfeddu eu heiddo pan fo ganddynt reswm da dros wneud hynny ond gyda mesurau diogelu addas ar waith ar gyfer tenantiaid a all golli eu cartref.

## Crynodeb o'r Bil

4) Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

5) Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu'r canlynol:
   a) Diddymu achosion 'troi allan heb fai' adran 21, gan olygu nad oes bygythiad o droi allan mympwyol a chan roi mwy o sicrwydd i denantiaid;
   b) Cryfhau hawliau ac amddiffyniadau tenantiaid er mwyn herio arferion cosbedigol megis codiadau rhent afresymol a chynigion rhent;
   c) Rhoi'r hawl i denantiaid ofyn am gael cadw anifail anwes, y mae'n rhaid i landlordiaid ei ystyried ac na allant ei wrthod yn afresymol;
   d) Cymhwyso Safon Cartrefi Gweddus i'r sector rhentu preifat er mwyn rhoi cartrefi mwy diogel sy'n cynnig gwell gwerth am arian i rentwyr a chael gwared ar gartrefi o ansawdd gwael mewn cymunedau lleol, y mae eu heffaith yn andwyol;

[1] Nodwch, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, y byddwn yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

e) Creu cronfa ddata ddigidol ar gyfer y sector rhentu preifat er mwyn dwyn ynghyd wybodaeth allweddol ar gyfer landlordiaid, tenantiaid a chynghorau;
f) Darparu ar gyfer cyflwyno gwasanaeth ombwdsmon newydd a fydd yn darparu penderfyniadau cyflym, teg, diduedd a rhwymol i denantiaid;
g) Ei gwneud hi'n anghyfreithlon i landlordiaid wahaniaethu yn erbyn tenantiaid sy'n cael budd-daliadau neu sydd â phlant wrth ddewis gosod eu heiddo;
h) Cryfhau pwerau gorfodi awdurdodau lleol ac ehangu cosbau ariannol, y gall cynghorau gadw'r elw ohonynt a'i ddefnyddio at ddibenion camau gorfodi yn y dyfodol;
i) Ehangu gorchmynion ad-dalu rhent yn sylweddol, gan gynnwys eu hymestyn i droseddau newydd, gan wneud uwchlandlordiaid a chyfarwyddwyr cwmnïau yn atebol.

6) Gwahoddwyd Llywodraeth Cymru i estyn y darpariaethau sy'n gymwys i wahaniaethu yn erbyn tenantiaid sy'n cael budd-daliadau, neu sydd â phlant, yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) yn ystod Senedd ddiwethaf y DU, y cyfeirir ato isod fel "y gwaharddiad diwahân". Gweithiodd fy swyddogion i gyda swyddogion Llywodraeth y DU i deilwra'r darpariaethau i Gymru, a gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd ar 30 Ionawr 2024.

7) Gwnaeth fy swyddogion i hefyd weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio Deddf Tai 2004 drwy'r Bil Rhentwyr (Diwygio) fel bod modd i'r troseddau gael eu cyflawni gan landlordiaid uniongyrchol, uwchlandlordiaid ac uwchdrwyddedwyr. Ar hyn o bryd, dim ond personau sy'n rheoli tŷ amlfeddiannaeth neu sydd â rheolaeth o dŷ amlfeddiannaeth sydd o fewn cwmpas y troseddau hyn ac, oherwydd y ffordd y mae'r rhain wedi eu diffinio, mae uwchlandlordiaid ac uwchdrwyddedwyr yn annhebygol iawn o berthyn i'r naill gategori neu'r llall. Felly, mae'r diwygiad hwn yn sicrhau, pan fo personau o'r fath yn gyfrifol am y methiant i drwyddedu, y gellir eu dwyn i gyfrif. Cytunwyd ar y diwygiadau hyn yn Senedd y DU yn ystod y cyfnod adrodd, a pharatowyd cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach i'w osod gerbron y Senedd.

8) Methodd y Bil Rhentwyr (Diwygio) â chwblhau ei hynt drwy Senedd y DU cyn iddi gael ei haddoedi ar 24 Mai 2024 a'i diddymu ar 30 Mai 2024.

9) Yn fuan ar ôl yr etholiad cyffredinol, cysylltodd swyddogion Llywodraeth y DU â'm swyddogion i unwaith eto i ofyn a fyddent yn fodlon ar ddyblygu'r darpariaethau yn ymwneud â gwahaniaethu yn y Bil Rhentwyr (Diwygio) mewn Bil Hawliau Rhentwyr newydd.

10) I'r perwyl hwn, mae'r Bil yn cynnig diwygiadau i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

11) Mae rhai cymalau eraill wedi eu nodi hefyd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r canlynol:

a) Pŵer sy'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol addasu deddfwriaeth neu effaith offerynnau cyfreithiol preifat i gyfrif am newidiadau'r Bil i'r drefn tenantiaeth sicr, er nad yw hyn yn gymwys yng Nghymru mwyach;
b) Pwerau sy'n estyn pwerau gorfodi awdurdodau tai lleol mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth i uwchlandlordiaid ac uwchdrwyddedwyr;
c) Mae swyddogion hefyd wedi nodi cymal sy'n gwneud newidiadau i Ddeddf Tai 1996 mewn perthynas ag Ombwdsmon Tai, y bydd angen cydsynio iddo yng Nghymru.

**Darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer**

12) Mae **Rhan 1 Pennod 1 Cymal 29 (2) a (4) i (10): 'Part 1 powers'** yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol addasu deddfwriaeth neu effaith offerynnau cyfreithiol preifat i gyfrif am newidiadau'r Bil i'r drefn tenantiaeth sicr, pan fo'n bosibl y gall y newidiadau hynny beri problemau i ddeddfwriaeth/offerynnau sy'n ymwneud â threfn tenantiaeth sicr Lloegr yn unig, a arferai fod yn gymwys i Gymru (ond nad yw'n gymwys iddi mwyach).

13) Mae **Rhan 1 Pennod 4 Cymal 42 'Discrimination relating to children or benefits status: Welsh language'** yn diwygio testun Cymraeg Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 a dyma fersiwn Gymraeg Cymal 43.

14) Mae **Rhan 1 Pennod 4 Cymal 43 'Discrimination relating to children or benefits status: English language'** yn gwahardd gwaharddiadau a chyfyngiadau gwahaniaethol mewn perthynas ag annedd sydd i fod yn ddarostyngedig i gontract meddiannaeth ar y sail y byddai plentyn yn byw gyda pherson neu'n ymweld â pherson yn yr annedd, neu y gallai plentyn fyw gyda pherson neu ymweld â pherson yn yr annedd, neu am fod person yn hawlio budd-daliadau neu y gallai hawlio budd-daliadau. Mae cymal 43 yn diwygio testun Saesneg Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd, Gwahaniaethu etc.) (Cymru) 2019 ("Deddf 2019") ac yn mewnosod Rhan newydd 2A yn Neddf 2019 sy'n cynnwys adrannau 8A i 8J. Cyflawnir hyn yn sgil y ffaith bod y cymal yn creu troseddau newydd. Bydd person sy'n euog o drosedd o dan adran 8A(1) ac 8B(1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

15) Mae **Rhan 1 Pennod 4 Cymal 44 'Amendment of short title of Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019'** yn diwygio enw byr Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 yn y testunau Cymraeg a Saesneg er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod cwmpas y Ddeddf wedi ei ehangu.

16) Mae **Rhan 1 Pennod 4 Cymal 45 'Amendments of Renting Homes (Wales) Act 2016 regarding discrimination'** yn diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ynghylch gofynion newydd ar landlordiaid i gynnwys telerau sylfaenol ychwanegol mewn contractau meddiannaeth. Mae is-

adrannau (1)–(4) yn diwygio testun Cymraeg Deddf 2016 ac mae is-adrannau (5)–(8) yn diwygio testun Saesneg Deddf 2016.

17) Mae **Rhan 1 Pennod 4 Cymal 46 ‘Power of Welsh Ministers to protect others’** yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol, i estyn yr amddiffyniadau rhag gwahaniaethu a roddir i rentwyr sydd â phlant neu sy’n cael budd-daliadau yn y bennod hon i garfannau ychwanegol.

18) Ni all Cymal 48 ‘Supplementary’ – rheoliadau o dan adran 8C o Ddeddf 2018 neu adran 46 o’r Ddeddf hon ond wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru os yw wedi’i gynnwys mewn Deddf gan y Senedd.

19) Mae **Rhan 2 Pennod 2 Cymal 70(3)(b) a (5) ‘Housing activities under social rented sector scheme’** yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1996. Mae is-adran (5) yn rhoi paragraff 10 newydd yn lle yn Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1996 (Sector rhentu cymdeithasol: Cwynion am dai) ynghylch cynllun cymeradwy a phenodiad a statws yr ombwdsmon tai. Mae is-adran (3)(b) yn mewnosod paragraff newydd 7A yn Atodlen 2 i Ddeddf 1996 sy’n darparu ar gyfer cyfarwyddydau o dan baragraff 10(3)(b).

20) Mae **Rhan 4 Pennod 1 Cymal 102 ‘Unlicensed HMOs and houses: offences’** yn diwygio adrannau 72 (troseddau mewn perthynas â thrwyddedu HMOs) a 95 (troseddau mewn perthynas â thrwyddedu tai o dan Ran 3) o Ddeddf Tai 2004 sydd, yn y drefn honno, yn ymwneud â throseddau mewn perthynas â thrwyddedu tai mewn amlfeddiannaeth (HMOs) ac eiddo sy’n ddarostyngedig i drwyddedu dethol.

21) Mae **Rhan 4 Pennod 1 Cymal 103 ‘Service of improvement notices on landlords and licensors’** yn diwygio paragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Tai 2004. Bydd y cymal, ar gyfer rhai mathau penodol o eiddo, yn galluogi awdurdodau tai lleol i gyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer peryglon i landlord, trwyddedwr, uwchlandlord neu uwchdrwyddedwr os ydynt o’r farn y dylai person o’r fath gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad.

22) Mae **Rhan 5 Cymal 137(1), (3) a (7) ‘Regulations’** yn egluro y gall rheoliadau a wneir o dan y Bil gynnwys darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed. Mae’r pŵer i wneud darpariaeth drosiannol yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth sy’n gymwys mewn perthynas â thenantiaethau, trwyddedau neu gontractau meddiannaeth yr ymrwymir iddynt, neu hysbysebu a ddechreuir, cyn y dyddiad y daw’r rheoliadau i rym.

23) Mae **Rhan 5 Cymal 138 ‘Power of Welsh Ministers to make**

**consequential provision'** yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol ar Ran 1 o'r Bil Hawliau Rhentwyr.

24) Mae **Rhan 5 Cymal 142(3) 'Commencement'** yn darparu y daw Pennod 4 o Ran 1 (Gwahaniaethu yn y farchnad rentu: Cymru) i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir gan offeryn statudol.

25) Mae **Rhan 5 Cymal 145(1) a (4) 'Transitional provision'** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed drwy is-ddeddfwriaeth mewn cysylltiad â chychwyn y darpariaethau gwahaniaethu yn y farchnad rentu yn Rhan 1 Pennod 4. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan is-adran (1) yn cynnwys pŵer i ddarparu i ddarpariaeth o Bennod 4 o Ran 1 fod yn gymwys (ag addasiadau neu heb addasiadau) mewn perthynas â chontractau meddiannaeth a roddir, a adnewyddir neu a barheir, neu hysbysebu a ddechreuir, cyn y dyddiad y daw'r ddarpariaeth i rym (is-adran (4)).

26) Mae Atodlen 2, paragraffau 13 a 50, yn gwneud diwygiadau ynghylch Pennod 1 o Ran 1. Mae paragraff 13 yn diwygio adran 1A o Ddeddf Tai 1988 er mwyn sicrhau ei bod yn gymwys heb y diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Hawliau Rhentwyr 2024. Mae paragraff 50 yn gwneud diwygiadau i Atodlen 12 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 trwy fewnosod paragraff newydd 29A i sicrhau bod Deddf Tai 1988 yn gymwys, at ddibenion paragraffau 28 a 29 o'r Atodlen honno, heb y diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Hawliau Rhentwyr 2024.

27) Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn cynnwys darpariaethau at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r darpariaethau'n diwygio deddfau a basiwyd gan y Senedd. O ran y darpariaethau gwaharddiad diwahân yn gyffredinol, mae dadl gref bod y darpariaethau'n ymwneud â thai a bod gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol llawn yn y materion hyn.

28) Bydd y darpariaethau yn gymwys i gontractau meddiannaeth presennol yn ogystal â'r rhai a roddir yn y dyfodol ac sydd ag effaith ôl-weithredol.

29) Mae'r cymalau a nodir yn y memorandwm hwn yn ddarpariaethau perthnasol i'r graddau y maent yn ymwneud â mater datganoledig tai, ac nid ydynt yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a gadwyd yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 na'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B i'r Ddeddf honno.

30) Mae'r memorandwm hwn yn ymdrin â'r darpariaethau y gwyddom ei bod yn ofynnol cael cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Wrth ystyried gweddill y Bil yn llawn, os canfyddir bod cymalau eraill y gall fod yn ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer, bydd memorandwm atodol hefyd yn cael ei lunio a'i osod gerbron y Senedd.

**Barn Llywodraeth y DU am yr angen i gael cydsyniad**

31) At ei gilydd, mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad. Ysgrifennodd Gweinidog Tai Llywodraeth y DU, Matthew Pennycook AS, at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i ofyn iddi geisio cydsyniad y Senedd ar 11 Medi.

32) Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad mewn perthynas â'r mwyafrif o **Bennod 4, Rhan 1 Cymalau 42 a 43**, ond nid yw'n credu bod angen cydsyniad ar gyfer adrannau newydd 8G ac 8H yn y ddwy ran, gan fod materion ariannol yn swyddogaeth a gadwyd yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai fod angen cydsyniad gan fod dadl y gellid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol o dan y prawf ehangach yn adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 o ran materion datganoledig, h.y. tai.

33) Nid yw Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad ar gyfer **Cymal 70** mewn perthynas â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i baragraff 10 a pharagraff newydd 7A o Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1996 o ran yr Ombwdsmon Tai, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y newidiadau hyn.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Rhentwyr (Diwygio)**

34) Yn fy marn i, byddai ceisio cymhwyso'r darpariaethau gwahaniaethu i Gymru mewn Bil gan Senedd y DU yn fy ngalluogi i gyflawni nod polisi arwahanol yn brydlon, o fewn amserlen llawer byrrach nag a fyddai'n bosibl fel arall pe baem yn ceisio cyflawni'r un nod drwy ddeddfwriaeth yn y Senedd. Disgwylir i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol yn y gwanwyn. Mae gwneud darpariaeth yn y modd hwn felly yn golygu y gall y manteision polisi gael eu cyflwyno yng Nghymru yn gyflymach a heb effeithio ar ein rhaglen ddeddfwriaethol ehangach.

35) Mae'r darpariaethau o ran gwaharddiad diwahân yn dilyn darpariaethau Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr a'r Alban yn fras; fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau pwysig yn y ffordd y cyflawnir y newidiadau yng Nghymru a Lloegr, er enghraifft cymerir camau gorfodi drwy'r gyfraith droseddol yn hytrach na thrwy gosb sifil am dorri'r gwaharddiad diwahân. Mae hyn er mwyn sicrhau cysondeb â deddfwriaeth bresennol Cymru, h.y. Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 y mae troseddau ynddi am godi ffioedd ar denantiaid oni bai eu bod wedi eu caniatáu.

36) Bydd y gwaharddiad yn gymwys i bob contract meddiannaeth yng Nghymru, yn unol â'r egwyddor sy'n sail i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae Deddf 2016 yn cael ei diwygio i wneud telerau sylfaenol newydd i adlewyrchu'r gwaharddiad diwahân.

37) Mae angen dybryd i'r darpariaethau yn y Bil gael effaith ôl-weithredol gan

fod angen cymdeithasol brys i'r darpariaethau fod yn gymwys i gontractau meddiannaeth, lesoedd a thelerau morgais presennol er mwyn i ddeiliaid contractau a darpar ddeiliaid contractau elwa ar y gwaharddiad diwahân. Heb ddarpariaeth o'r fath, gallai'r prif amcan polisi gael ei danseilio a/neu gallai ei fanteision gael eu gohirio am flynyddoedd lawer mewn cysylltiad ag anheddau sy'n ddarostyngedig i delerau o'r fath.

38) Mae'r fantais i ddeiliaid contractau sy'n cael budd-daliadau neu a all gael budd-daliadau neu sydd â phlant neu a all fod â phlant, yn ogystal â'r manteision cymdeithasol sydd ynghlwm wrth y ffaith bod pobl o'r fath yn gallu cael gafael ar dai priodol yn haws ac nad oes rhaid iddynt ddibynnu ar gymorth digartrefedd gan gynghorau lleol, yn drech o lawer na'r anfantais i forgeiseion a landlordiaid o wneud darpariaeth ag effaith ôl-weithredol. Yn ogystal, bydd yn osgoi anghyfiawnder system ddwy haen a fyddai'n gweithredu am flynyddoedd lawer i ddod gyda dim ond deiliaid contractau meddiannaeth newydd yn elwa ar amddiffyniad y gwaharddiad diwahân.

39) Mae'r darpariaethau mewn perthynas â Deddf Tai 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol, ar gyfer eiddo nad ydynt yn fflatiau nac yn ddarostyngedig i drwyddedu HMO neu ddethol, gymryd camau gorfodi yn erbyn y person sydd â rheolaeth o'r eiddo neu'r person sy'n rheoli'r eiddo, neu gyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer peryglon i'r personau hynny. Ar hyn o bryd efallai na fydd bob amser yn bosibl cyflwyno hysbysiadau o'r fath i rai personau penodol sydd â buddiant yn yr eiddo – er enghraifft, uwchlandlordiaid mewn trefniadau rhent-i-rent. Y bwriad yw caniatáu i awdurdodau tai lleol gyflwyno hysbysiadau gwella i'r person sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod camau unioni yn cael eu cymryd mewn cysylltiad â'r perygl. Mewn rhai achosion, efallai mai'r uwchlandlord fydd y person hwn. Mae hyn yn sicrhau y gall awdurdod lleol gymryd camau yn erbyn uwchlandlord os yw'n amlwg mai'r uwchlandlord yw'r person â rheolaeth.

40) Er bod hynny'n gymwys i annedd yn Lloegr, ym marn Llywodraeth Cymru nid yw'r diwygiad i baragraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1996 yn ganlyniadol ar wasanaeth newydd yr ombwdsmon ar gyfer landlordiaid yn y sector rhentu preifat ond mae'n sylweddol oherwydd ei fod yn gymwys mewn perthynas â nifer o gartrefi yng Nghymru.

**Goblygiadau ariannol**

41) Ni nodwyd unrhyw oblygiadau ariannol hyd yma pe bai'r darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru.

**Casgliad**

42) Yn fy marn i, mae'n briodol cymeradwyo'r darpariaethau yn y Bil hwn gan Senedd y DU gan ei fod yn caniatáu inni wahardd y gwahaniaethu mympwyol hwn yn y sectorau rhentu yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei

chydsyniad.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**26 Medi 2024**